# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

## 354- Beirniadaeth Prosiect llenyddol Bl.10-25 oed

## Beirniad – Heulwen Davies

### 1af: Ysgol Bryn Tawe

Aeth y disgyblion ati i greu gwefan arbennig o dda dan y teitl 'Hyn o Fyd'. Fel gyda phob gwefan dda roedd yn hawdd i'w defnyddio ac yn llawn cynnwys difyr iawn, yn addysgol ac adlodianol. Roedd cyfuniad o farddoniaeth trawiadol, blogiau a ffeithiau difyr iawn am sefyllfa'r byd heddiw.

Roedd ol ymchwil dyrus. Yr unig fannau i'w gwella oedd yr adran Amdanom ni – angen mwy o gynnwys yma a llun. Hoffwn weld mwy o luniau a llai o destun ar y dudalen 'cartref' hefyd i osgoi gymaint o sgrolio.

Gwaith gwych iawn ar y cyfan ac rydw i wedi dysgu sawl ffaith newydd am destun amserol. Llawn haeddu'r wobr gyntaf a gobeithio bydd y wefan hon ar gael i eraill ei mwynhau a dysgu ohonni hefyd.

### 2il: Aelwyd JMJ

Dyma gasgliad gwych o gerddi trawiadol. Casgliad sy'n gadael ei farc ar y darllenydd ac yn gwneud i chi feddwl, sydd bob amser yn arwydd da. Arddull greadigol a gafaelgar sy'n creu darluniau cofiadwy a chryf yn meddwl y darllenydd. Gwaith sy'n cynnig llygedyn bach o obaith yng nghanol yr holl boeni am sefyllfa'r byd heddiw. Llawn haeddu'r ail wobr a gobeithio cawn ddarllen mwy o farddoniaeth gan y bardd ifanc yma yn y dyfodol, dal ati!

### 3ydd: Ysgol David Hughes

Cofnod gonest a real o gyfnod y Pandemig. Arddull hawdd i'w ddarllen gyda disgrifiadau gweledol y gall darllenwyr o bob cwr o'r byd uniaethu â nhw wrth gofio nol am y cyfnod heriol hwn. Llawn haeddu'r trydydd safle a dal ati i ysgrifennu!